

**Ydych chi'n pryderu ynghylch y newid yn yr hinsawdd?  
Beth am ddod yn Hyrwyddwr Hinsawdd Rhyngwladol a gwneud rhywbeth amdano?**

**1. Beth yw Hyrwyddwr Hinsawdd Rhyngwladol?**

Ar hyn o bryd mae 1000 o Hyrwyddwyr Hinsawdd Rhyngwladol mewn 30 o wledydd gwahanol, a'r rheiny wedi cael eu crewtio gan y Cyngor Prydeinig, a'r nod yw ehangu'r rhwydwaith i gynnwys 60 o wledydd a 2000 o Hyrwyddwyr Hinsawdd Rhyngwladol. Mae'r hyrwyddwyr yn ymgymryd â phrosiectau yn y eu cymunedau neu'n genedlaethol ac yn symbylu pobl eraill i weithredu.

Rydym yn chwilio am bobl neilltuol rhwng 18 a 35 oed yn y DU allai wneud y canlynol:

- Cyflawni prosiect newid hinsawdd yn eu cymuned neu'n genedlaethol
- Rhwydweithio â Hyrwyddwyr o'r un anian o bob rhan o'r byd, gan rannu syniadau ac arfer da
- Cynrychioli'r DU neu eu rhanbarth ar faterion sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.

Bydd croeso arbennig i brosiectau â dimensiwn rhyngwladol. Gall cynigion am brosiectau gael eu llunio gan dîm ond dylai un person gymryd cyfrifoldeb a chyflwyno'i hun fel Hyrwyddwr Hinsawdd. Bydd enwau'r hyrwyddwyr llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi, a byddant yn cychwyn ar eu 'blwyddyn yn y swydd ar gyfer 2010/11', ym mis Tachwedd 2010.

**2. Pa fath o berson sy'n gwneud Hyrwyddwr Hinsawdd da?**

Mae'n rhaid eich bod:

- Yn byw'n barhaol yn y DU
- Rhwng 18 a 35 oed
- Yn meddu ar wybodaeth sylfaenol am y ffeithiau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd
- Yn frwdfrydig ac yn dangos penderfyniad
- Yn hyderus wrth annerch eraill a'r cyfryngau
- Yn fodlon teithio

**3. Sut mae gwneud cais?**

**Lluniwch eich syniad am brosiect**

Dylai hwn ddangos yn eglur sut gallwch annog y gymuned neu'r cyhoedd i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

Gall eich prosiect ganolbwyntio ar y naill neu'r llall o'r canlynol:

- ffyrdd o gyfyngu ar effeithiau'r newid yn yr hinsawdd (lliniaru)
- ffyrdd o addasu ein ffyrdd o fyw i weddu i'r amodau a gaiff eu creu gan y newid yn yr hinsawdd (addasu)

Gallwch gynnwys dimensiwn rhyngwladol, a bydd hyn yn cryfhau eich cais.

### **Cwblhewch y ffurflen gais**

Ysgrifennwch hyd at 350 o eiriau sy'n dweud y canlynol wrthym:

- beth yw nod eich prosiect
- pa gamau gweithredu y bydd angen eu cymryd i gyrraedd eich nod
- beth yw effaith ddisgwyliedig eich prosiect a pha mor gynaliadwy ydyw
- Sut y byddwch yn ei fesur

### **Anfonwch y cais atom**

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5pm ar yr **30<sup>ain</sup> o Tachwedd 2010**

E-bostiwch eich cynnig i [climatechampions@cyfanfyd.org.uk](mailto:climatechampions@cyfanfyd.org.uk) Marciwch eich cais â'r llythrennau ICC + eich cyfenw

### **4. Beth fydd yn digwydd wedi i mi gyflwyno'r cais?**

Bydd eich cais yn cael ei anfon yn uniongyrchol at y panel sy'n beirniadu'r gystadleuaeth. Bydd y ceisiadau gorau'n cael eu dethol ar gyfer cyfweiliad anffurfiol dros y ffôn tuag. Bydd y beirniaid wedyn yn dethol yr Hyrwyddwyr a bydd enwau'r enillwyr hyn yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2010.

### **5. Y Manteision**

Os ydych yn un o'r Hyrwyddwyr Hinsawdd Rhyngwladol byddwch:

- yn derbyn hyd at £1,000 i helpu eich prosiect ar y newid yn yr hinsawdd.
- yn cymryd rhan mewn gweithdai hyfforddi rhanbarthol.
- yn cael cyfleoedd i gwrrd a siarad ag arbenigwyr rhyngwladol ac ymweld â phrosiectau ar y newid yn yr hinsawdd.
- Yn derbyn gwahoddiadau i fynychu digwyddiadau rhanbarthol ac, o bosib, rhyngwladol ar y newid yn yr hinsawdd.
- Yn cael y cyfle i rwydweithio â Hyrwyddwyr o'r un anian mewn hyd at 60 o wledydd ledled y byd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â mi

[dominic@cyfanfyd.org.uk](mailto:dominic@cyfanfyd.org.uk)

Rheolwr y Prosiect Hyrwyddwyr Hinsawdd Rhyngwladol yng Nghymru

Cyfanfyd

Y Deml Heddwch

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3AP

Ff 02920 668999